------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 12 Mawrth 2015**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru


## Agenda
MeetingTitle

**09.15 – 09.30 – Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

## 2 Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi – Sesiwn dystiolaeth 1 (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 23)

Estyn
CYPE(4)-08-15 – Papur 1

Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol
Catherine Evans, Arolygydd EM

## 3 Papurau i'w nodi

**Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi – Crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur**
(Tudalennau 24 – 46)
CYPE(4)-08-15 – Papur i'w nodi 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Y Pwyllgor yn trafod y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (10.30 - 11.15) (Tudalennau 47 - 51)

CYPE(4)-18-15 – Papur preifat 3

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
**CYPE(4)-08-15 – Papur 1**
**Tystiolaeth gan : Estyn**

| **Cwestiwn 1** - Beth yw eich barn ar ba mor gyffredin yw'r defnydd o athrawon cyflenwi, wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio? |
|---|
| Yn 2013, cynhaliodd Estyn arolwg thematig o effaith absenoldeb athrawon. Ymgymerwyd â'r gwaith hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gorchwyl blynyddol y Gweinidog. Ysgrifennwyd yr adroddiad mewn cydweithrediad â Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Nododd Estyn yn ei adroddiad:<br>'*Mae cyflwyno'r rheol cyflenwi'n anaml (a chytundeb y gweithlu) wedi arwain at fwy o gymhlethdod o ran darparu trefniadau cyflenwi gan fod ysgolion yn gwneud trefniadau cyflenwi yn absenoldeb athrawon nad ydynt mwyach yn cynnwys eu staff addysgu eu hunain. Yn ogystal ag athrawon cyflenwi, mae'r trefniadau hyn bellach yn cynnwys goruchwylwyr llanw a staff cymorth eraill a gyflogir mewn ysgolion nad oes ganddynt statws athro cymwys (SAC).*' Felly, pan fydd athro'n absennol, caiff gwersi eu cyflenwi gan athrawon cyflenwi ond hefyd gan oruchwylwyr a/neu gynorthwywyr addysgu llanw heb gymhwyso (heb fod â Statws Athro Cymwys).<br><br>Mae'r cwestiynau ymgynghori hyn yn ymwneud ag athrawon cyflenwi, ond yn ystod ein harolygiad thematig, canfuom fod llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio athrawon cyflenwi yn gymwys i oruchwylwyr a chynorthwywyr addysgu hefyd.<br><br>Yn ein hadroddiad thematig, nododd Estyn: '*Amcangyfrifir bod ychydig o dan 10% o'r holl wersi bellach yn cael eu cyflenwi gan staff nad y nhw yw'r athro dosbarth arferol'*. Mae'r ffigur hwn yn dynodi bod y defnydd o athro cyflenwi, goruchwyliwr llanw neu gynorthwyydd addysgu i gyflenwi pan fydd yr athro dosbarth arferol yn absennol yn fater arwyddocaol mewn ysgolion yng Nghymru yn gyffredinol, er bod difrifoldeb a chymhlethdod y mater yn amrywio o |

ysgol i ysgol. At ei gilydd, mae arolygwyr yn adrodd bod defnydd uwch na'r cyfartaledd o athrawon cyflenwi mewn ysgolion uwchradd mewn ardaloedd mwy difreintiedig, lle mae penaethiaid yn cael anhawster recriwtio athrawon, yn enwedig athrawon mathemateg a ffiseg. Yn aml, mae gan ysgolion sydd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig) gyfran uwch o wersi yn cael eu cyflenwi gan athrawon cyflenwi a goruchwylwyr llanw.

Adroddodd Estyn: '*Mae ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion Cymraeg a'r ysgolion hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd dan anfantais economaidd, yn cael anhawster dod o hyd i athrawon cyflenwi addas. Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i athrawon pynciau prinder, fel mathemateg a ffiseg'*.

Os ydych o'r farn bod hyn yn arwain at broblemau (er enghraifft, ar gyfer ysgolion, disgyblion neu athrawon), sut y gellir eu datrys?

Mae llawer o'r materion sy'n arwain at fynychter athrawon cyflenwi yn gymhleth ac ni ellir eu datrys yn gyflym. Mae'r materion yn cynnwys y canlynol:

- anhawster o ran recriwtio staff mewn meysydd pwnc allweddol, yn arbennig, mathemateg, ffiseg a Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- lefelau uchel o absenoldeb staff mewn ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn llai effeithiol;
- lefelau uwch o absenoldeb staff mewn ysgolion lle mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn broblematig;
- absenoldeb tymor hir mewn ysgolion cynradd; ac
- anhawster o ran recriwtio penaethiaid a dirprwy benaethiaid mewn ysgolion gwledig bach.

Cynhwysodd Estyn yr argymhellion canlynol yn ei atodiad yn 2013:
Dylai ysgolion:

- A1 reoli absenoldeb athrawon yn fwy effeithlon;
- A2 gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn gwersi a gyflenwir, drwy wneud yn siwr bod y gwaith a osodir ar lefel briodol a bod y

staff yn cael digon o wybodaeth am anghenion unigol y dysgwyr;

- A3 cynorthwyo staff cyflenwi a staff llanw i wella'u technegau rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth;
- A4 arfarnu effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr, yn enwedig y disgyblion mwy galluog a'r rhai yng nghyfnod allweddol 3, a monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu pan fydd athrawon yn absennol;
- A5 sicrhau bod staff cyflenwi yn cael eu cynnwys mewn trefniadau rheoli perfformiad;
- A6 cynnig mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff cyflenwi; a
- A7 gwneud yn siwr bod staff cyflenwi yn cael gwybodaeth hanfodol am iechyd a diogelwch a diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt y swyddog amddiffyn plant enwebedig yn yr ysgol.

**Dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi**:

- A8 ddarparu data cymharol ar gyfraddau absenoldeb athrawon i ysgolion; a
- A9 gofyn am adborth ar ansawdd staff cyflenwi y maent yn eu cofrestru, a'i gofnodi, a defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion rheoli ansawdd.

**Dylai Llywodraeth Cymru**:

- A10 ddarparu gwell mynediad i staff cyflenwi at y rhaglenni hyfforddi cenedlaethol hynny sydd ar gael i athrawon mewn swyddi parhaol.

Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn)

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2** – Beth yw eich barn ar yr amgylchiadau pan ddefnyddir athrawon cyflenwi? Er enghraifft: y math o ddosbarthiadau maent yn dysgu; y math o weithgareddau dysgu sy'n digwydd dan oruchwyliaeth athrawon cyflenwi; a ydynt yn gymwys i addysgu pynciau perthnasol. |
| Yn ei adroddiad yn 2013, adroddodd Estyn: '*Mae effaith negyddol fwyaf absenoldeb athrawon ar ddysgu disgyblion yn digwydd mewn ysgolion uwchradd. Nid yw staff cyflenwi nad ydynt yn gweithio yn yr ysgol fel arfer yn gwybod beth yw anghenion y dysgwyr gystal â'u hathrawon dosbarth arferol, ac mae'r gwaith a osodir yn rhy hawdd yn aml ac nid yw'n diddori'r dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyfnod allweddol 3, gan y bydd ysgolion yn aml yn gwneud ymdrech i sicrhau trefniadau gwell ar gyfer dosbarthiadau arholiadau. Yn aml, ni fydd ysgolion uwchradd yn gwneud trefniadau cyflenwi ar gyfer gwersi'r chweched dosbarth yn ystod absenoldebau tymor byr, ond byddant yn dal i fyny â gwaith a gollwyd nes ymlaen. Efallai y byddant hefyd yn ailddefnyddio athrawon pwnc o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 3 i gyflenwi dros gyfnod allweddol 4, gan adael staff cyflenwi i lanw nifer anghymesur o wersi cyfnod allweddol 3.'*<br><br>*'Bydd y tarfu mwyaf mewn ysgolion cynradd yn digwydd o ganlyniad i ddiffyg strategaeth i leihau effaith absenoldebau athrawon heb eu cynllunio, ond absenoldebau a allai fod yn rhai hirdymor. Mewn sefyllfaoedd cymhleth, fel y rhai sy'n deillio o staff yn cael eu hatal neu salwch staff mynych ond heb fod yn ddi-dor, nid yw ysgolion yn rheoli nac yn arfarnu effaith cael nifer o staff yn cyflenwi ar gyfer yr un grŵp blwyddyn. Yn rhy aml, mae hyn yn effeithio ar ymddygiad y disgyblion yn ogystal â'u dysgu.'* |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |

| | |
|---|---|
| *3 - Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 - Nid yw'n broblem.* | |

**Cwestiwn 3 -** Beth yw eich barn ar effaith y defnydd o athrawon cyflenwi ar ganlyniadau disgyblion (gan gynnwys unrhyw effaith ar ymddygiad disgyblion)?

Canfu adroddiad Estyn: '*Oherwydd natur tymor byr eu gwaith, mae'n anodd i staff cyflenwi sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda dysgwyr. Nid oes gan ddysgwyr yr un parch yn aml at staff cyflenwi ag sydd ganddynt at eu hathrawon arferol.'*

'*Nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi pan fydd eu hathro arferol yn absennol. Y rheswm am hyn yn aml yw nad yw'r gwersi sy'n cael eu cyflenwi yn hoelio sylw pob un o'r dysgwyr yn ddigon da, neu nid yw'r athro cyflenwi yn gwybod beth yw anghenion y grŵp gystal â'r athro arferol. Yn aml, mae'r gwaith sy'n cael ei adael gan yr athro neu'r gwaith a drefnir ar fyr rybudd gan y pennaeth adran yn hawdd, ac mewn lleiafrif o achosion, mae'n cynnwys gweithgareddau fel gwylio fideo, cwblhau chwileiriau neu groeseiriau, a chynhyrchu posteri.'*

'*Mae effaith negyddol absenoldeb athrawon yn fwy yn aml mewn rhai pynciau, fel ieithoedd tramor modern, Cymraeg ail iaith, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg. Y rheswm am hyn yw bod staff nad ydynt yn arbenigwyr yn cyflenwi yn ystod y gwersi yn aml, ac nid yw dysgwyr yn gallu ymgymryd â gweithgareddau ymarferol. Ni fydd yr athrawon neu'r goruchwylwyr llanw sy'n cyflenwi yn y wers Cymraeg ail iaith yn meddu ar y medrau iaith penodol i bwnc i gefnogi a datblygu'u dysgu. Yn aml, bydd dysgwyr yn cael eu symud i ystafelloedd dosbarth eraill pan fydd eu hathro yn absennol, ac o ganlyniad ni fyddant yn gallu defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael iddynt fel arfer. Mae symud o ddosbarth i ddosbarth yn rhoi'r argraff hefyd fod y wers yn llai pwysig i'r athro a'r disgybl. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r dysgwyr yn nodi bod athrawon cyflenwi neu oruchwylwyr llanw yn tueddu gofyn iddynt ysgrifennu ar ddalennau o bapur yn hytrach nag yn eu gweithlyfrau arferol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff y gwaith ei farcio ac nid eir ar ei drywydd.*

| |
|---|
| *Gweithgaredd llenwi amser yw hwn yn hytrach na dysgu go iawn."* <br><br> '*O ganlyniad i'r gwaith anymestynnol hwn, mae dysgwyr yn dangos ymddygiad sy'n fwy heriol.  Maent yn fwy tebygol o darfu ar lefel isel, a chaiff hyn effaith negyddol bellach ar eu cyflawniad a'u cynnydd mewn gwersi.  Dywed bron pob un o'r disgyblion a gymerodd ran yn ein harolwg nad ydynt yn ymddwyn gystal mewn dosbarth gydag athro cyflenwi neu oruchwyliwr llanw o'i gymharu â'u hathro arferol. Mae dysgwyr ysgolion uwchradd ar draws yr ystod gallu yn aml yn dangos agweddau negyddol tuag at athrawon cyflenwi a goruchwylwyr llanw nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr ysgol. Mae hyn golygu yn aml fod disgyblion yn gwneud llai o gynnydd yn y gwersi hyn ac mae eu dysgu'n fwy cyfyngedig. Mae eu hagweddau'n fwy cadarnhaol tuag at athrawon amser llawn sy'n gwneud gwaith cyflenwi, neu oruchwylwyr llanw a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol."* |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Gweler yr ymateb i Gwestiwn 1 |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | X |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 4 –** Beth yw eich barn ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon cyflenwi ac effaith bosibl y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol? |
| Nododd Estyn fod cymorth i staff cyflenwi yn amrywiol ond at ei gilydd, nad yw staff cyflenwi yn cael digon o hyfforddiant a datblygiad.  Mae'r mwyafrif o athrawon cyflenwi a goruchwylwyr llanw yn cael rhywfaint o hyfforddiant, er bod ffocws cymharol gul i hyn ac nid yw'n bodloni pob un o'u hanghenion.  Mae'r hyfforddiant hwn fel arfer yn canolbwyntio'n benodol ar ddelio ag ymddygiad heriol ac ar |

fedrau addysgu cyffredinol, ond nid yw'n cynnwys fawr ddim am flaenoriaethau neu fentrau cenedlaethol.

*'Dywed bron pob un o'r athrawon cyflenwi a'r goruchwylwyr llanw y byddent yn hoffi gwell mynediad i ystod ehangach o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o athrawon, nid yw datblygiad proffesiynol athrawon cyflenwi yn cael cefnogaeth dda gan eu cyflogwr, hyd yn oed os byddant wedi llofnodi contract a'u bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth gyflenwi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu trefnu eu hyfforddiant eu hunain neu fynychu cyrsiau a gynigir gan gwmnïau preifat, er y byddai hyn yn golygu colli cyflog diwrnod. Teimlant eu bod yn colli allan ar gyfleoedd sy'n cael eu cynnig i gydweithwyr â chontractau parhaol.*

*Mae athrawon cyflenwi sydd wedi ymuno â'r proffesiwn yn ddiweddar yn teimlo dan anfantais arbennig am nad ydynt bob amser yn gallu cwblhau eu cyfnod sefydlu ANG. Os cânt eu cyflogi am o leiaf 0.4 ar gyfer tymor cyfan, gallant ymuno â'r rhaglen meistri mewn addysg a gyflwynwyd yn ddiweddar. Er hynny, gall eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bolisïau a blaenoriaethau cenedlaethol ddirywio dros gyfnod, gan ei gwneud yn anoddach iddynt sicrhau swydd barhaol. Teimla'r athrawon newydd gymhwyso hyn y byddant yn mynd yn llai cystadleuol yn y farchnad ar gyfer swyddi addysgu amser llawn.*

*Mae'r rhan fwyaf o oruchwylwyr llanw a CALUau a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion yn cael hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddi fewnol flynyddol eu hysgol. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ystod o destunau sy'n berthnasol i athrawon dosbarth a staff cymorth eraill. Mae mwyafrif o oruchwylwyr llanw a CALUau mewn ysgolion cynradd yn cael hyfforddiant ychwanegol hefyd fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o oruchwylwyr llanw mewn ysgolion uwchradd yn cymryd rhan mewn trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol, er y dywed y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn ei groesawu.'*

| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
|---|---|
| Gweler yr ymateb i Gwestiwn 1. | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 5** – Beth yw eich barn ar drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon cyflenwi? | |
| Mae llawer o ysgolion cynradd yn cyflogi CALUau fel goruchwylwyr llanw i gyflenwi pan fydd athrawon yn cael amser CPA statudol neu i gyflenwi pan fydd yr athro yn absennol am resymau eraill. Mae rolau a chyfrifoldebau goruchwylwyr llanw, CALUau ac athrawon cyflenwi yn amrywio gormod o fewn ysgolion a rhwng ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o CALUau yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau rheoli perfformiad ysgolion ac mae ganddynt amcanion rheoli perfformiad addas, ond mae natur eu gwaith a'u swydd-ddisgrifiadau yn amrywio'n sylweddol o fewn ysgolion a rhwng ysgolion a chaiff hyn effaith ar ddysgwyr a faint o gynnydd y maent yn ei wneud pan fydd eu hathro arferol yn absennol.<br><br>Fodd bynnag, yn arolwg 2013, nododd Estyn '*Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu digon o adborth i athrawon cyflenwi. Weithiau, bydd ysgolion yn rhannu adborth gyda'r asiantaeth gyflenwi, ond mae ansawdd yr adborth hwn yn amrywio gormod, ac nid yw'n ddigon cadarn yn aml. Bydd ychydig o asiantaethau yn cysylltu ag ysgolion ar ddiwedd pob wythnos i drafod perfformiad staff cyflenwi, er mai ychydig iawn o wybodaeth a gaiff ei chofnodi'n ffurfiol gan yr ysgol. Mae'r adborth yn fanylach pan fydd pryderon ynghylch yr addysgu neu reolaeth yn yr ystafell ddosbarth, ac felly mae'r adborth i athrawon cyflenwi yn tueddu canolbwyntio ar yr agweddau negyddol ar eu gwaith. Nid yw awdurdodau lleol sy'n darparu rhestrau o* | |

*athrawon cyflenwi yn gofyn am adborth ar berfformiad.*'

'*Mae bron pob ysgol ar brydiau wedi codi pryderon ynghylch ansawdd ychydig o athrawon cyflenwi. Mae llawer o ysgolion wedi gorfod gofyn i athro cyflenwi neu oruchwyliwr llanw adael yr ysgol cyn terfyn amser eu contract oherwydd perfformiad anfoddhaol. Nid oes unrhyw drefniadau i asiantaethau cyflenwi rannu'r wybodaeth hon gyda Llywodraeth Cymru na CyngACC oni bai bod perfformiad yn destun pryder sylweddol.'*

*'Nid yw'r mwyafrif o oruchwylwyr llanw mewn ysgolion uwchradd yn cymryd rhan mewn trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol, er y dywed y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn ei groesawu.'*

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Gweler y sylwadau yn ymwneud â Chwestiwn 1.

Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn)

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

**Cwestiwn 6** – A ydych o'r farn bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddigon o oruchwyliaeth dros y defnydd o athrawon cyflenwi?

Mae rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran caffael, monitro a hyfforddi athrawon cyflenwi yn amrywio gryn dipyn, ond yn gyffredinol mae'n annigonol ac mae'r trefniadau presennol yn aneffeithiol.

Nododd Estyn yn ei adroddiad yn 2013 'Mae *gan awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru drefniadau gwahanol ar gyfer caffael a darparu athrawon cyflenwi i ysgolion. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darparu rhestr i ysgolion o athrawon cyflenwi sy'n gymwys i weithio yn yr*

| | |
|---|---|
| *awdurdod, ac sydd wedi cael eu harchwiliad cyn-cyflogi eu hunain. Weithiau, bydd y gwaith o ddarparu'r rhestr hon yn cael ei roi i asiantaethau recriwtio. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol eraill yn cysylltu ag asiantaethau cyflenwi i ddarparu i ysgolion restr o athrawon cyflenwi neu oruchwylwyr llanw sy'n gymwys i weithio yn yr awdurdod lleol.*' | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| | |
| *1 - Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 - Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 - Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 - Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 7** - A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiaeth leol a rhanbarthol yn y defnydd o athrawon cyflenwi? Os felly, a oes rhesymau am hynny? | |
| Yn adroddiad Estyn yn 2013, nodwyd y canlynol: '*Mae gan awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru drefniadau gwahanol ar gyfer caffael a darparu athrawon cyflenwi i ysgolion. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darparu rhestr i ysgolion o athrawon cyflenwi sy'n gymwys i weithio yn yr awdurdod, ac sydd wedi cael eu harchwiliad cyn-cyflogi eu hunain. Weithiau, bydd y gwaith o ddarparu'r rhestr hon yn cael ei roi i asiantaethau recriwtio. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol eraill yn cysylltu ag asiantaethau cyflenwi i ddarparu i ysgolion restr o athrawon cyflenwi neu oruchwylwyr llanw sy'n gymwys i weithio yn yr awdurdod lleol.'*<br><br>Gan fod ysgolion yn defnyddio staff heblaw am athrawon cyflenwi i gyflenwi yn ystod absenoldeb athrawon a bod awdurdodau lleol yn cadw mathau a meintiau gwahanol o ddata am y defnydd o athrawon cyflenwi, nid ydym yn gallu rhoi ymateb manylach. Fodd bynnag, mae llawer o'n sylwadau a amlinellwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 1 hefyd yn berthnasol i'r cwestiwn penodol hwn. | |

| |
|---|
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| Cwestiwn 8 – A oes gennych unrhyw farn ar asiantaethau cyflenwi a'u trefniadau sicrhau ansawdd? |
| Canfu ein harolwg '*Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ffafrio un asiantaeth athrawon cyflenwi a defnyddiant y pris isaf fel y ffactor penderfynu, yn hytrach nag ansawdd. Mae'n well gan ychydig o ysgolion beidio â defnyddio asiantaethau cyflenwi, ac mae eu hawdurdod lleol wedi cynghori ychydig iawn o ysgolion i beidio â defnyddio asiantaethau cyflenwi. Mae deunaw o awdurdodau lleol a phump o golegau addysg bellach a chyrff cyhoeddus eraill wedi llofnodi cytundeb 'Gwerth Cymru' ar gyfer gwaith cyflenwi. New Directions Education, sef cwmni cyfyngedig preifat, a enillodd y contract ar gyfer gogledd a de Cymru. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar ysgolion i ddefnyddio'r contract i gaffael gwasanaeth cyflenwi.*<br><br>'*Mae ychydig o ysgolion, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio asiantaethau cyflenwi yn Lloegr, wedi canfod, pan fydd yr athro cyflenwi wedi cyrraedd yr ysgol, nad yw wedi cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) ac na allant addysgu yng Nghymru. Mae hyn wedi dod yn amlwg pan fo staff wedi gwirio dogfennau cofrestru CyngACC. Yn yr achosion hyn, nid yw'r athro cyflenwi neu'r goruchwyliwr llanw wedi gallu ymgymryd â'r gwaith cyflenwi yn yr ysgol'.*<br><br>*'Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu digon o adborth i athrawon cyflenwi. Weithiau, bydd ysgolion yn rhannu adborth gyda'r* |

| | |
|---|---|
| *asiantaeth gyflenwi, ond mae ansawdd yr adborth hwn yn amrywio gormod, ac nid yw'n ddigon cadarn yn aml. Bydd ychydig o asiantaethau yn cysylltu ag ysgolion ar ddiwedd pob wythnos i drafod perfformiad staff cyflenwi, er mai ychydig iawn o wybodaeth a gaiff ei chofnodi'n ffurfiol gan yr ysgol. Mae'r adborth yn fanylach pan fydd pryderon ynghylch yr addysgu neu reolaeth yn yr ystafell ddosbarth, ac felly mae'r adborth i athrawon cyflenwi yn tueddu canolbwyntio ar yr agweddau negyddol ar eu gwaith. Nid yw awdurdodau lleol sy'n darparu rhestrau o athrawon cyflenwi yn gofyn am adborth ar berfformiad.* | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| Gweler ymateb Estyn i Gwestiwn 1. | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 9 –** A ydych yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg? Os felly, beth ydynt? | |
| Nododd Estyn *'Mae effaith negyddol absenoldeb athrawon yn fwy yn aml mewn rhai pynciau, fel ieithoedd tramor modern, Cymraeg ail iaith, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg. Y rheswm am hyn yw bod staff nad ydynt yn arbenigwyr yn cyflenwi yn ystod y gwersi yn aml, ac nid yw dysgwyr yn gallu ymgymryd â gweithgareddau ymarferol. Ni fydd yr athrawon neu'r goruchwylwyr llanw sy'n cyflenwi yn y wers Cymraeg ail iaith yn meddu ar y medrau iaith penodol i bwnc i gefnogi a datblygu'u dysgu. Yn aml, bydd dysgwyr yn cael eu symud i ystafelloedd dosbarth eraill pan fydd eu hathro yn absennol, ac o ganlyniad ni fyddant yn gallu defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael iddynt fel arfer. Mae symud o ddosbarth i ddosbarth yn rhoi'r argraff hefyd fod y wers yn llai pwysig i'r athro a'r disgybl. Yn y* | |

| |
|---|
| *mwyafrif o achosion, mae'r dysgwyr yn nodi bod athrawon cyflenwi neu oruchwylwyr llanw yn tueddu gofyn iddynt ysgrifennu ar ddalennau o bapur yn hytrach nag yn eu gweithlyfrau arferol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff y gwaith ei farcio ac nid eir ar ei drywydd. Gweithgaredd llenwi amser yw hwn yn hytrach na dysgu go iawn.'*<br><br>Adroddom hefyd '*Pan fydd athrawon yn absennol am gyfnod amser sylweddol (mwy na dau neu dri diwrnod), bydd llawer o ysgolion yn gwneud cryn ymdrechion i ddod o hyd i athrawon â'r medrau pwnc perthnasol neu fedrau sy'n benodol i gyfnod. Mae ysgolion uwchradd yn cael anhawster mawr yn aml yn dod o hyd i athrawon pynciau prinder, fel mathemateg a gwyddoniaeth. Pan na fydd ysgolion uwchradd yn gallu dod o hyd i athrawon cyflenwi pwnc arbenigol, bydd ychydig o arweinwyr pwnc yn aildrefnu grwpiau addysgu fel bod athrawon arbenigol yn addysgu dosbarthiadau arholiadau. Gwaethygir y broblem hon pan nad yw'r nifer lawn o athrawon arbenigol gan adrannau'n barod. Ysgolion Cymraeg a'r ysgolion hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd dan anfantais economaidd sy'n cael yr anhawster mwyaf dod o hyd i athrawon cyflenwi addas, yn enwedig pan fydd angen athrawon arnynt hefyd sydd ag arbenigedd mewn pynciau prinder.*' |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

**Cwestiwn 10** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw?

Amlinellodd Estyn yr argymhellion a restrir isod yn ei arolwg yn 2013. Mae Argymhelliad 10 yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn benodol.

**Dylai ysgolion:**

- A1 reoli absenoldeb athrawon yn fwy effeithlon;
- A2 gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn gwersi a gyflenwir, drwy wneud yn siwr bod y gwaith a osodir ar lefel briodol a bod y staff yn cael digon o wybodaeth am anghenion unigol y dysgwyr;
- A3 cynorthwyo staff cyflenwi a staff llanw i wella'u technegau rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth;
- A4 arfarnu effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr, yn enwedig y disgyblion mwy galluog a'r rhai yng nghyfnod allweddol 3, a monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu pan fydd athrawon yn absennol;
- A5 sicrhau bod staff cyflenwi yn cael eu cynnwys mewn trefniadau rheoli perfformiad;
- A6 cynnig mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff cyflenwi; a
- A7 gwneud yn siwr bod staff cyflenwi yn cael gwybodaeth hanfodol am iechyd a diogelwch a diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt y swyddog amddiffyn plant enwebedig yn yr ysgol.

**Dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi:**

- A8 ddarparu data cymharol ar gyfraddau absenoldeb athrawon i ysgolion; a
- A9 gofyn am adborth ar ansawdd staff cyflenwi y maent yn eu cofrestru, a'i gofnodi, a defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion rheoli ansawdd.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- A10 ddarparu gwell mynediad i staff cyflenwi at y rhaglenni hyfforddi cenedlaethol hynny sydd ar gael i athrawon mewn swyddi parhaol.

| **Cwestiwn 11** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| --- |
| |

# Cyfathrebu'r Cynulliad – Allgymorth
# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi
## Crynodeb Holiadur

### Cefndir

Mae Tîm Cyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio gyda phwyllgorau'r Cynulliad i gynnwys pobl Cymru yng ngwaith y Cynulliad.  Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu cysylltiadau uniongyrchol rhwng y materion sy'n bwysig i bobl a gwaith y pwyllgorau, a thrwy ddarparu cyfleoedd wedi'u teilwra i bobl allu dweud eu dweud.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi, a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

### Methodoleg

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran ateb ystod o gwestiynau a oedd yn ymwneud â defnydd athrawon cyflenwi a pa effaith a gaiff ar ddisgyblion. Hefyd, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran eu barn ynghylch pa mor aml mae athrawon cyflenwi yn dysgu gwersi, pa fath o bethau sy'n cael ei addysgu yn ystod y gwersi hynny a sut y maent yn wahanol i wersi gyda athro arferol.

Lluniwyd dau arolwg â'r bwriad o dargedu plant a phobl ifanc oedran ysgol, ac rhieni a gofalwyr plant oedran ysgol.

### Codi Ymwybyddiaeth

Bu staff y Cynulliad yn hyrwyddo'r arolwg ymysg grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd, ac ar ymweliadau addysg, ac ar nifer o wefannau cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiwyd Twitter a hysbysebion wedi'u dargedu ar Facebook i helpu codi ymwybyddiaeth o'r holiaduron.

## Ystadegau Allweddol

**1486** Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg

**929** Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg gan plant a pobl ifanc


**557** Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg gan rhieni a gofalwyr

## Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion

**Crynodeb awdurdodau lleol**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion:1,432*

Blaenau Gwent: 36
Pen-y-bont ar Ogwr: 39
Caerffili: 68
Caerdydd: 137
Sir Gaerfyrddin: 37
Ceredigion: 35
Conwy: 43
Sir Ddinbych: 79
Sir y Fflint: 30
Gwynedd: 33
Ynys Môn: 9
Merthyr Tudful: 30
Sir Fynwy: 48
Castell-nedd Port Talbot: 63
Casnewydd: 174
Sir Benfro: 33
Powys: 102
Rhondda Cynon Taf: 154
Abertawe: 124
Torfaen: 74
Bro Morgannwg: 41
Wrecsam: 36




# Crynodeb o'r Ymatebion – Plant a Pobl Ifanc

### Cwestiwn un: Ym mha flwyddyn ysgol wyt ti?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion:*


| | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 (Cynradd): **1** | Blwyddyn 2: **8** | Blwyddyn 3: **8** | Blwyddyn 4: **25** |
| Blwyddyn 5: **38** | Blwyddyn 6: **80** | Blwyddyn 7 (Uwchradd): **24** | Blwyddyn 8: **36** |
| Blwyddyn 9: **34** | Blwyddyn Deg: **71** | Blwyddyn un ar ddeg: **136** | Blwyddyn deuddeg: **268** |
| Blwyddyn tair ar ddeg: **38** | Coleg: Blwyddyn gyntaf: **3** | Coleg: Ail flwyddyn: **11** | Coleg: Trydedd blwyddyn: **5** |




**Cwestiwn dau: Wyt ti'n ddisgybl mewn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, ysgol Saesneg ei chyfrwng neu arall?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion:919*

- Ysgol Gymraeg ei chyfrwng: **29% (262)**
- Ysgol Saesneg ei chyfrwng: **66.1% (608)**
- Arall: **5.3% (49)**



## Cwestiwn tri: Ble wyt ti'n byw?





*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 908*

Cyfathrebu'r Cynulliad
—
Assembly Communications

**Cwestiwn pedwar: Pa mor aml wyt ti'n cael dy ddysgu gan athro cyflenwi?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion:908*


- Bob wythnos: **23.8% (217)**
- Bob pythefnos: **20.4% (186)**
- Bob mis: **23.6% (215)**
- Bob 1 – 6 mis: **16.9% (154)**
- Unwaith y flwyddyn: **6.2% (57)**
- Byth: **8.7% (79)**



**Cwestiwn pump: Os wyt ti'n cael dy ddysgu gan athro cyflenwi weithiau, ai'r un athro cyflenwi yw ef fel arfer neu a yw'n athro cyflenwi gwahanol bob tro?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 900*


- Yr un athro cyflenwi: **12.1% (109)**
- Athro cyflenwi gwahanol: **29.7% (268)**
- Mae'n amrywio: **58.1% (523)**




**Cwestiwn chwech: Pan wyt ti'n cael dy ddysgu gan athro cyflenwi, wyt ti'n parhau â'r un gwaith, neu'n gwneud rhybweth gwahanol?**


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 899*

- Parhau â'r un gwaith: **59.1% (532)**
- Gwneud rhywbeth gwahanol: **40.8% (367)**



**Cwestiwn saith: Os wyt ti'n gwneud rhywbeth gwahanol, beth wyt ti'n ei wneud?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 398*




** Dywedodd 25 ymatebwyr pan fydd yn cael eu haddysgu gan athrawon cyflenwi, eu bod yn cynnal gwaith nad yw'n gysylltiedig neu'n berthnasol i'r pwnc. Gallai hyn olygu gwneud posteri, mynd dros wersi hen, cwblhau posau chwilair a thasgau eraill gwasaidd.*

** * Esboniodd 10 unigolyn bod yr hyn a wnaethant mewn gwers a gwmpesir gan athro cyflenwi yn dibynnu ar pa bwnc mae'r athro cyflenwi yno. Os yw'r athro cyflenwi yn aelod arall o staff o'r un adran, byddai'r wers yn parhau fel yr arfer. Os yw'r athro cyflenwi yn anghyfarwydd â'r pwnc neu'n dod o adran wahanol o fewn yr ysgol, naill ai ganddynt wers rydd neu wers gwahanol gyfan gwbl.*

****Dywedodd 25 ymatebwyr bod pan ymdrinnir â'u gwersi gan athro cyflenwi, byddent yn bwrw ymlaen â'r gwaith fel arfer. Byddai hyn yn cynnwys cwmpasu gwaith maen nhw wedi'i wneud yn y wers flaenorol ac yn parhau gyda dysgu'r pwnc fel yr arfer.*

Cyfathrebu'r Cynulliad


—

Assembly Communications

**Cwestiwn wyth: Faint wyt ti'n meddwl dy fod yn ei ddysgu pan fydd athro cyflenwi yn dy ddysgu?**


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 864*

- Dysgu mwy na gydag athro arferol: **3.7% (32)**
- Yr un faint a gydag athro arferol: **15.7% (136)**
- Dysgu llai na gydag athro arferol: **80.5% (696)**



### Cwestiwn wyth: sylwadau


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 662*




**Esboniodd chwe ymatebydd bod faint o ddysgu yn dibynnu ar ba mor hir y bydd yr athro cyflenwi'n dysgu / cyflenwi. Roedd hefyd dibynnu a os oedd absenoldeb yr athro arferol wedi'i gynllunio. Po hiraf y cyflenwad, y mwyaf neu'r un peth roeddent yn teimlo bod wedi dysgu. Roedd hyn hefyd yn berthnasol lle y cynlluniwyd absenoldeb yr athro arferol. Lle'r oedd absenoldeb yr athro arferol heb ei gynllunio dros gyfnod byr o amser, bu gwersi yn ddistrwythyr ac yn aml yn cynnwys tasgau amherthnasol fel croeseiriau, chwileiriau neu gael gwers rydd.*

**Cwestiwn naw: Sut wyt ti'n teimlo am gael dy ddysgu gan athro cyflenwi? (Er engrhaifft, wyt ti'n teimlo dy fod yn dysgu rhywbeth gwahanol; mae'n dda cael athro gwahanol neu nid yw'r athro yn dy adnabod ddigon da).**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 743*




** Eglurodd 38 ymatebwr eu bod nhw ddim yn mwynhau cael eu haddysgu gan athrawon cyflenwi, ar y sail y bydd nifer sylweddol o'u cyd-ddisgyblion hefo diffyg parch i'r athro cyflenwi ac felly'n ymddwyn yn aflonyddgar. Caiff hyn ei waethygu lle nid oes digyblaeth gan athrawon cyflenwi.*


*** Dywedodd 122 o bobl ifanc bod cael eu haddysgu gan athrawon cyflenwi yn amharu ar eu llif o ddysgu, ac mae'n "gwastraff o amser". Roedd llawer o bobl ifanc yn teimlo bod cael gwers rydd, gwneud posteri neu chwileiriau yn wastraff amser pan allai fod yn canolbwyntio ar barhau'r cynllun gwers.*

****Eglurodd 206 o ymatebwyr nad oeddynt yn hoffi cael eu haddysgu gan athrawon cyflenwi oherwydd nad oeddent yn gwybod nhw neu'r dosbarth yn ddigon da. Nodwyd gwahanol ddulliau addysgu a methu deall anghenion addysgol rhai disgyblion neu eu hanghenion addysgol arbennig fel rhesymau.*

**Cwestiwn 10: Wyt ti'n meddwl bod y disgyblion yn y dosbarth yn ymddwyn yr un peth pan fydd ganddynt athro cyflenwi?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 863*

- Ymddwyn yn well gydag athro cyflenwi: **2.0% (18)**
- Ymddwyn yr un peth gydag athro cyflenwi: **17.6% (152)**
- Ymddwyn yn waeth gydag athro cyflenwi: **80.3% (693)**





**Ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg ey cyfrwng -**

**Cwestiwn 11: Pan fydd athro cyflenwi yn dy ddysgu, a yw'n dy ddygu yn yr un iaith ag yr wyt ti'n arfer cael dy ddysgu yn y wers honno?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 238*

- Yr un iaith: **53.3% (127)**
- Iaith wahanol: **46.6% (111)**



# Crynodeb o'r Ymatebion – Rhieni a Gofalwyr

### Cwestiwn un: Ym mha flwyddyn ysgol y mae eich plenty/plant?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 585*

Dosbarth derbyn: **30**

Blwyddyn 1 (Cynradd): **32**

Blwyddyn 2: **37**

Blwyddyn 3: **41**

Blwyddyn 4: **42**

Blwyddyn 5: **43**

Blwyddyn 6: **37**

Blwyddyn 7 (Uwchradd): **54**

Blwyddyn 8: **65**


Blwyddyn 9: **64**

Blwyddyn Deg: **55**

Blwyddyn un ar ddeg: **49**

Blwyddyn deuddeg: **24**


Blwyddyn tair ar ddeg: **12**




**Cwestiwn dau: A ydynt yn mynychu ysgol gymraeg ei chyfrwng, ysgol Saesneg ei chyfrwng neu arall?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 545*

- Ysgol Gymraeg ei chyfrwng: **25.6% (140)**
- Ysgol Saesneg ei chyfrwng: **65.1% (355)**
- Arall: **9.1% (50)**



## Cwestiwn tri: Yn ardal pa awdurdod lleol yr ydych chi'n byw?





*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 544*

**Cwestiwn pedwar: Pa mor aml y cant eu dysgu gan athro cyflenwi?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 434*


- Bob wythnos: **45.3% (197)**
- Bob pythefnos: **16.1%(70)**
- Bob mis: **18.2% (79)**
- Bob 1 – 6 mis: **14.5% (63)**
- Unwaith y flwyddyn: **3.68% (16)**
- Byth: **2.0% (9)**



**Cwestiwn pump: Os ydynt yn cael eu dysgu gan athro cyflenwi weithiau, ai'r un athro cyflenwi yw ef fel arfer neu a yw'n athro cyflenwi gwahanol bob tro?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 433*


- Yr un athro cyflenwi: **13.0% (54)**
- Athro cyflenwi gwahanol: **43.1% (187)**
- Mae'n amrywio: **44.3% (192)**




**Cwestiwn chwech: Pan gânt eu dysgu gan athro cyflenwi, yw'r gwaith a wnânt yn y dosbarth yn parhau yn ôl yr arfer, neu a yw'n rhywbeth gwahanol?**


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 420*

- Yn parhau yn ôl yr arfer: **41.6% (175)**
- Yn gwneud rhywbeth gwahanol: **58.3% (245)**



**Cwestiwn saith: Os ydynt yn gwneud rhywbeth gwahanol, oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn? (Er engrhaifft, a ydynt yn gweithio y tu allan i'r maes pwnc arferol).**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 206*




** Eglurodd pedwar rhiant a gofalwr bod y gwaith gwahanol mae eu plentyn/plant yn cynnal yn tanseilio eu gallu deallusol, neu yn methu â chydnabod anghenion addysgol arbennig eu plentyn/plant.*

*** Nododd dau ymatebydd bod y gwaith gwahanol ddim yn dilyn y maes llafur craidd. Hynny yw, nad yw eu plentyn/plant yn dilyn is bynciau perthnasol i baratoi tuag at arholiadau.*


****Teimlai un rhiant/gofalwr fod athro cyflenwi tymor hir yn darfu ar addysg, yn enwedig pan nad yw'r athro cyflenwi hefo unrhyw arbenigedd yn y maes pwnc. Unwaith eto, gall hyn gael effaith andwyol ar botensial disgybl rhag cael marc da mewn arholiad.*

****Dywedodd 60 o ymatebwyr bod y gwaith gwahanol mae eu plentyn/plant yn cynnal yn amherthnasol i'r gwaith pwnc, ac yn aml yn gwneud gwaith sy'n rhy hawdd. Er enghraifft, mynd dros hen gynlluniau gwersi, chwileiriau/croeseiriau neu gael gwersi rhydd.*

**Cwestiwn wyth: Yn seiliedig ar adborth gan eich plentyn / plant, beth ydych chi'n ei feddwl am faint o ddysgu sy'n digwydd mewn gwers a ddysgir gan athro cyflenwi? Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 382*

- Dysgu mwy na gyda'r athro arferol: **5.2% (20)**
- Tua'r un faint a gyda'r athro arferol: **19.1% (73)**
- Dysgu llai na gyda'r athro arferol: **75.6% (289)**



## Cwestiwn wyth: sylwadau

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 222*





** Eglurodd 16 rhiant a gofalwr, yn seiliedig ar adborth gan eu plentyn/plant, eu bod nhw'n dysgu llai nag gyda'u hathro arferol oherwydd bod athrawon cyflenwi yn chwarae rôl oruchwylio yn y dosbarth, yn hytrach nag addysgu disgyblion rhywbeth newydd neu barhau â'r cynllun gwers.*

*** Dadleuodd 31 o'r ymatebwyr bod eu plentyn/plant yn dysgu llai nag gyda'u hathro arferol gan fod y gwaith a roddwyd gan athrawon cyflenwi rhy hawdd, neu arwynebol i'r pwnc. Mae llawer yn cael tasgau byr sydd ddim yn heriol a gall cwblhau'n gyflym, neu rhoddir gwers rydd yn gyfan gwbl i siarad / gwblhau croeseiriau a phosau.*

**Cwestiwn naw: Yn seiliedig ar adborth gan eich plenty / plant, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'u gwersi pan gânt eu dysgu gan athro cyflenwi?**


*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 381*

- Bodlon iawn: **6.0% (23)**
- Bodlon: **14.0% (55)**
- Dim barn: **14.0% (55)**
- Anfodlon: **38.8% (148)**
- Anfodlon iawn: **27.2% (100)**



## Cwestiwn naw: sylwadau

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 176*




**Eglurodd 11 rhieni a gofalwyr eu pryder bod athrawon cyflenwi ddim yn derbyn digon o gymorth. Hynny yw, nad ydynt yn cael digon o gymorth gan yr Ysgol neu gan yr athro sy'n absennol (gan nad yw'n gadael cynllun gwers drylwyr a chynhwysfawr i ddilyn)*

***Mynegodd saith ymatebydd eu pryder nad yw rhai athrawon cyflenwi yn arbenigwyr yn y pwc yn ystod astudiaethau CA4 sy'n hanfodol ar gyfer eu plentyn/plant. Mae pryder cyffredinol dros y defnydd o athrawon cyflenwi nad ydw'n arbenigo ym mhwnc penodol wrth gwrs, ond roedd yr ymatebwyr yn poeni mwy am yr effaith o'i defnydd yn ystod y cyfnodau hyn ar ganlyniadau arholiad.*


****Eglurodd 26 rhieni a gofalwyr eu pryder dros y defnydd o athrawon cyflenwi ar gyfer y gwersi hynny nad yw'n maes eu harbenigedd. Dywedodd llawer o rieni a gofalwyr o blentyn/plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg bod eu gwersi Cymraeg (ail iaith) yn cael eu llenwi gan athrawon cyflenwi di-gymraeg o ran iaith. Mynegwyd y pryder hwn hefyd gan rieni a gofalwyr plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond cymhwyso'r pryder i holl bynciau (yn hytrach na gwersi Cymraeg yn unig).*

**Ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg eu cyfrwng -**

**Cwestiwn 10: Pan fydd athro cyflenwi yn dysgu eich plenty / plant, a yw'n eu dysgu yn yr un iaith ag y maent fel arfer yn cael eu dysgu yn y wers honno?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 89*

- Yr un iaith: **91.01% (81)**
- Iaith wahanol: **8.99% (8)**



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon